Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 19 RHAGFYR 2008

Hwn fydd yr e-fwletin olaf am eleni ac mae'n gyfle felly i ddiolch i chi am eich cefnogaeth i ddigwyddiadau a gweithgareddau Morlan dros y flwyddyn - boed hynny trwy fynychu digwyddiadau neu gyfarfodydd, trwy wirfoddoli ac estyn cymorth neu drwy ledaenu'r gair am y Ganolfan. Ar ran pawb yn y Morlan, hoffwn ddymuno Nadolig llawen a dedwydd i chi a blwyddyn newydd dda. Ar lefel bersonol, hoffwn ychwanegu fy niolch diffuant i bawb am fod mor gynnes eu croeso ac mor barod eu cefnogaeth; bu'n wyth mis hynod o ddifyr a diddorol i mi yma.

Tawel yw hi dros y bythefnos nesaf wrth gwrs, a bydd Morlan ar gau dros y cyfnod hwn. Bydd pethau'n ailddechrau yma yn gynnar ym mis Ionawr.

- 7.30, nos Sadwrn, 3 Ionawr: Noson Gerdd wedi'i threfnu gan Ieuenctid Cymru i Lourdes, Plwyf Aberystwyth. Dewch i fwynhau noson arbennig o gerddoriaeth glasurol, werin a chyfoes gan ddoniau lleol (yn cynnwys Violetones, Elinor Morgan, Heddwen Daniel ac Eoin Mahon o Ysgol Penweddig, Rebecca O'Donnell o Ysgol Penglais a Catrin Woodruff, Gwenllian Daniel, Aeron Preston). Bydd y drysau'n agor am 7.15 (tocynnau: £5, plant £2).
- 8.15, nos Fercher, 7 Ionawr: cyfarfod o Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth.
- 7.30, nos Iau, 8 Ionawr: cyfarfod misol grŵp Amnest Rhyngwladol lleol.
- 6.00, nos Sul, 11 Ionawr: Cwmni'r Morlan yn cyflwyno O Blith fy Mhobl gan y Parch. Pryderi Llwyd Jones – cyflwyniad i nodi trigeinfed pen-blwydd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn 60 oed. Noder: mae Ann Davies sy'n cyfarwyddo'r cyflwyniad hwn yn yr ysbyty wrth i mi ysgrifennu'r e-fwletin hwn. Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd felly beth fydd yn digwydd o ran y cyflwyniad – cewch wybodaeth bellach yn y flwyddyn newydd.
- 7.30, 19 Ionawr: agoriad swyddogol arddangosfa Gareth Owen Cysgod y Capel. Bydd yr agoriad ar ffurf seiat gyda Harry James yn cadeirio a Gareth Owen yn bresennol i drafod ei waith. Croeso i unrhyw un fynychu. Bydd yr arddangosfa yma tan 28 Chwefror.
- Rhagbysbys: 7.00, nos Wener, 20 Chwefror: Theatr Powys yn cyflwyno Hand in Hand – drama ar gyfer pawb dros 6 oed. Manylion pellach i ddilyn.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr